**Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol**
**Constitutional and Legislative Affairs Committee**

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Leighton Andrews AC
Y Gweinidog Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Llawr 5 Tŷ Hywel
Bae Caerdydd
CF99 1NA

1 Rhagfyr 2014

Annwyl Leighton

**Rheoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor (Gofynion Rhagnodedig a Chynllun Diofyn) (Cymru) (Diwygio) 2015**

Diolch am eich llythyr dyddiedig 17 Tachwedd, a gafodd ei ystyried yn ein cyfarfod ar 24 Tachwedd 2014.

Fel rydym wedi egluro yn y gorffennol, rydym bob amser yn barod i weithio'n hyblyg i gynorthwyo Llywodraeth Cymru, gan gydbwyso hynny gyda'n rhwymedigaeth i graffu ar ddeddfwriaeth yn effeithiol ac mewn ffordd agored a thryloyw.

Er mwyn inni allu adrodd yn gynnar ym mis Ionawr, byddai'n ddefnyddiol pe gallai eich cyfreithwyr rannu, yn gyfrinachol, drafft presennol y rheoliadau gyda chyfreithwyr y Comisiwn cyn gynted â phosibl. Rydym wedi gweithredu fel hyn gyda chyfreithwyr Llywodraeth Cymru yn rheolaidd ac yn effeithiol dros y blynyddoedd diwethaf, gan ei fod yn hwyluso a gwella effeithlonrwydd y broses graffu.

Yn dilyn paragraff olaf eich llythyr a'n hadroddiad ym mis Mai 2013, *Ymchwiliad i Reoliadau Cynlluniau Gostyngiadau'r Dreth Gyngor*, byddai'n ddefnyddiol cael gwybod pa gynnydd sydd wedi'i wneud i sicrhau gwell

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1NA

Ffôn / Tel: 029 2089 8154
E-bost / E-mail: gareth.williams@cymru.gov.uk

Croesewir gohebiaeth yn y Gymraeg a'r Saesneg/We welcome correspondence in both English and Welsh

ymgysylltu rhwng Llywodraeth Cymru a'r Adran Gwaith a Phensiynau, yn benodol o ran sicrhau eich bod yn gallu rhoi copi o'r rheoliadau drafft inni, gyda'r ffigurau priodol neu hebddynt, cyn gynted â phosibl.

Rwyf hefyd yn anfon copi o'r llythyr hwn at Gadeirydd y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol.

Yn gywir

**David Melding AC**
**Cadeirydd**